# Cronfa Integreiddio Rhanbarthol – Proffil dwy dudalen

## ***Hybu iechyd a lles emosiynol da (PR002)***

Mae'r proffil hwn yn dangos y manylion lefel uchel sy'n ymwneud â'r cynnig a'r, monitro a gwerthuso blynyddol, gan gynnwys dangosyddion, mesurau perfformiad, gwariant a'r effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth.

### Trosolwg/crynodeb o'r rhaglen

Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar gefnogi plant 8-11 oed a'u teuluoedd sydd angen cymorth ychwanegol i feithrin gwytnwch a gwella eu llesiant. Mae'n defnyddio model cymysg o ddarpariaeth, gan gynnig cymorth yn yr ysgol a chymorth y tu fas i'r ysgol. Cynhelir sesiynau y tu fas i oriau ysgol gyda'r hwyr, ar benwythnosau, ac yn ystod gwyliau mewn lleoliadau cymunedol amrywiol, gan gynnwys cartrefi, parciau a chanolfannau hamdden. Ymysg themâu allweddol mae emosiynau, dicter, pryder, hyder, cyfeillgarwch, gwahanu, profedigaeth, hunan-niweidio, ac anhwylderau bwyta. Mae'r rhaglen yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar gryfderau, gan deilwra cymorth i anghenion unigol a chanolbwyntio ar weithgareddau adeiladu gwytnwch. Mae model cymorth cydweithredol wedi'i integreiddio, sy'n cynnwys cymorth 1:1, sesiynau grŵp ac adnoddau i rieni a staff ysgol i gynnal canlyniadau therapiwtig. Fodd bynnag, mae'r rhaglen yn wynebu heriau gan mai dim ond plant 8-11 oed sy'n gallu cael eu cefnogi'n uniongyrchol ganddi, gan gyfyngu ar y gallu i ddarparu cymorth cyfannol i deuluoedd â phlant o wahanol oedrannau a allai fod angen cymorth hefyd. Mae'r angen i annog rhieni i atgyfnerthu strategaethau yn y cartref yn amlwg hefyd.

Y prif amcanion yw gwella llesiant emosiynol, hyrwyddo gwytnwch, a meithrin amgylchedd cefnogol trwy ymgysylltu ag oedolion. Drwy roi offer i blant reoli eu hemosiynau a chynnwys eu rhwydweithiau cymorth, nod y rhaglen yw creu effeithiau cadarnhaol parhaol ar fywydau'r plant hyn a'u teuluoedd.

## Cynnyrch RIF:

*Model gofal sylfaenol:*

Hyrwyddo llesiant emosiynol cadarnhaol

*Galluogwyr:*

Hyrwyddo'r sector gwerth cymdeithasol

Datblygu ac integreiddio'r gweithlu

*Grŵp poblogaeth â blaenoriaeth*

Plant a phobl ifanc

*Dull rhanbarthol:*

Darperir y rhaglen gan bartneriaid lluosog ar draws y rhanbarth gan gynnwys y sector statudol a'r trydydd sector. Mae cyllid y Gronfa'n cyfrannu at fuddsoddiad mwy gan bartneriaid statudol. Mae'n rhaglen integredig sy'n gweithio'n agos gyda phartneriaid o bob sector.


### Blaenoriaeth (Sy'n cysylltu â'r Cynllun Ardal)

Cyflwyno ymagwedd system gyfan well ar gyfer darparu cymorth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc ar draws y rhanbarth.

Caiff pobl ar draws y rhanbarth sy'n aros am ddiagnosis am gyflwr iechyd meddwl fynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt fel eu bod yn gallu 'aros yn dda'.

Cefnogaeth ymddygiad i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

### Gwariant y prosiect – £1,142,406.31 (BA 2023/24)




### *Prosiectau/partneriaid sy'n cefnogi cyflawni:*

| |
|---|
| BIP CTM |
| Awdurdodau lleol |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Trydydd Sector |
| Darparwyr Cymunedol |
| Heddlu De Cymru |


### *Crynodeb o wariant:*

Mae'r cyllid a dderbynnir gan y Gronfa yn gyfraniad tuag at ddarparu ystod ehangach o wasanaethau cymorth blynyddoedd cynnar ar draws y rhanbarth cyfan. Defnyddiwyd y cyllid a ddarparwyd yn ystod 2023/24 yn llawn yn ystod y flwyddyn.


### Allbynnau rhaglen (ffigurau blynyddol):
(gan gynnwys mesurau canlyniad ychwanegol)

### Deilliannau rhaglen: (mesurau sylfaenol)
(Rhifau)

| | |
|---|---|
| Nifer o bobl a gefnogwyd | 2,144 |
| Nifer o sesiynau un i un | 3224 |
| Nifer o sesiynau grŵp | 291 |
| Nifer o sesiynau CBT a ddarparwyd | 650 |
| Nifer y sesiynau di-therapi a fynychwyd | 192 |
| Nifer o weithdai a ddarparwyd (addysg) | 12 |
| Nifer o weithwyr proffesiynol neu ofalwyr maeth a fynychodd weithdai | 323 |
| Cynnydd mewn gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt | 4,749 |




## Deilliannau rhaglen: (mesurau sylfaenol)




## Effaith y rhaglen (ansoddol):

Mae effaith ansoddol y rhaglen yn amlochrog, gan wella llesiant emosiynol a chymdeithasol plant a'u teuluoedd yn sylweddol. Dangosodd cyfranogwyr welliannau amlwg wrth reoli emosiynau, lleihau pryder, dicter, a brwydrau emosiynol eraill, gan arwain at well iechyd meddwl yn gyffredinol.

Mae'r dull, sy'n seiliedig ar gryfderau, wedi cynyddu hunan-barch a hyder plant, gan eu gwneud yn fwy gwydn a pharod i ymdrin â heriau. Mae'r gwytnwch hwn wedi meithrin agwedd fwy cadarnhaol ynglŷn â'u dyfodol, gan eu helpu i osod nodau personol.

Cryfhaodd y berthynas deuluol trwy gyfranogiad gweithredol rhieni a staff yn y broses therapiwtig. Mae'r cynhwysiant hwn wedi gwella cyfathrebu o fewn teuluoedd ac wedi rhoi sgiliau gwerthfawr i rieni gefnogi eu plant, gan greu amgylchedd cartref mwy cydlynol a chefnogol.

Mae'r gostyngiad mewn ymddygiad afiach yn amlygu effeithiolrwydd dysgu mecanweithiau ymdopi iachach a thechnegau hunan-reoleiddio.Bu'r adborth yn gadarnhaol, gyda straeon personol o drawsnewid yn tanlinellu'r effaith sylweddol.

Mae'r rhaglen yn integreiddio cymorth yn yr ysgol a chymorth y tu allan i'r ysgol, gydag ymyriadau'n para hyd at bedair wythnos ac yn cynnwys rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau canlyniadau cynaliadwy. Dangosodd y Rhaglen lwyddiant wrth feithrin gwytnwch ac iechyd emosiynol, gan effeithio'n sylweddol ar fywydau plant a'u teuluoedd ar draws y rhanbarth CTM.

## Trosolwg perfformiad: (crynodeb)

Mae'r Rhaglen yn cefnogi plant 8-11 oed a'u teuluoedd drwy feithrin gwytnwch a gwella llesiant emosiynol. Cefnogwyd 2,144 o unigolion trwy 3,224 o sesiynau un-i-un, 391 o sesiynau grŵp, a 650 o sesiynau CBT. Hefyd, cynhaliwyd 192 o sesiynau di-therapi a 12 o weithdai addysgol a fynychwyd gan 323 o weithwyr proffesiynol a gofalwyr maeth. O ganlyniad, cafodd 4,749 o unigolion wybodaeth uwch am y gwasanaethau sydd ar gael.

Mae canlyniadau allweddol yn cynnwys mwy o wytnwch mewn 370 o unigolion, 385 yn osgoi gwasanaethau statudol, gwell iechyd meddwl i 563 o unigolion, llai o ymddygiadau afiach mewn 182 o unigolion, sefydlogrwydd mewn 170 o leoliadau, rhagolygon mwy cadarnhaol ar gyfer 251 o unigolion, mwy o wybodaeth a sgiliau ar gyfer 323 o unigolion, ac ailuno teulu ar gyfer 17 o blant.

## Argymhellion

Rhai argymhellion posib i'w hystyried:

- Parhau i gyllido ar lefelau presennol.
- Parhau ac ehangu'r hyfforddiant ar gyfer gofalwyr, staff ysgol, a gweithwyr proffesiynol i wella cynaliadwyedd canlyniadau therapiwtig.
- Unioni'r modelau hyn â Fframwaith NYTH/NEST Llywodraeth Cymru i gynnal cydlyniad â safonau cenedlaethol.
- Datblygu manyleb gwasanaeth rhanbarthol unedig i sicrhau cysondeb mewn modelau darparu, llwybrau atgyfeirio, ymyriadau ac offer asesu.
- Eiriol dros gyllid parhaus a chynyddol i sicrhau hirhoedledd a sefydlogrwydd.